

Llwybr Dyffryn Clywedog



Cyflwyniad

Mae Llwybr Dyffryn Clywedog yn mynd o Byllau Plwm y Mwynglawdd at Felin y Brenin. Mae'n hawdd dilyn y llwybr sydd wedi ei arwyddo ar hyd yr afon i'ch cynorthwyo i fwynhau prydferthwch naturiol y dyffryn heddychol hwn a dadorchuddio ei hanes cyfoethog.

Afon Clywedog fu bywyd y dyffryn erioed, yn dyfrio cnydau a da byw ers y cyfnodau cynnar, yn gweithio melinau ŷd ac yn gyrru peiriannau diwydiannol.

Yn ystod y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif cynnar yr afon oedd gwir bŵer yr ardal, yn gweithio 17 melin ar ei hyd – melinau llenwi i baratoi brethyn, melinau ar gyfer malu ŷd a bragu, a melinau papur. Roedd olwynion dŵr


anferth yn gweithio'r fegin i chwythu aer i'r ffwrnais yn y Bers, ac yn gyrru'r peiriannau pwmpio a chludo yn y pyllau plwm.

Tyfodd y boblogaeth yn ddramatig wrth i'r chwyldro diwydiannol ddenu gweithwyr i ardal Wrecsam, i'r pyllau glo a ddatblygodd a'r gweithfeydd dur, y chwareli carreg galch a'r gweithfeydd toddi plwm. Roedd galw ddiweddd am fwyd i fwydo'r gweithlu a oedd yn cynyddu. Roedd gorlifdiroedd ffrwythlon Clywedog wedi darparu porfa gyfoethog ac ŷd erioed, ond roedd yn rhaid adeiladu melinau ŷd newydd a chlirio ardaloedd o goetiroedd i dyfu cnydau er mwyn ateb y galw cynyddol.

Pan gymerodd stêm drosodd yn hwyr yn y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif nid oedd angen lleoli'r diwydiannau newydd yn agos at yr afon mwyach. Yn raddol daeth diwydiannau a melinau blawd Clywedog i ben yn sgil technoleg newydd a mewnfurion rhad o dramor.

Y dyddiau hyn mae Clywedog wedi dychwelyd at natur, ond mae'n parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd y dyffryn fel man ar gyfer bywyd gwylt ac ymlacio. Mae nifer o'r hen adeiladau a'r tir gerllaw yn amgueddfeydd, yn ganolfannau ymwelwyr ac yn barciau gwledig ger yr afon – Pyllau Plwm y Mwynglawdd, Canolfan Ymwelwyr ac ardal bicnic Melin y Nant, Canolfan Dreftadaeth y Bers, a Pharc Gwledig Erddig.

Mae cerdded yn ffordd o ymlacio ac yn dda i'ch iechyd, felly beth am fwynhau taith gerdded sy'n darganfod Dyffryn Clywedog.





Y Mwynglawdd i Felin y Nant

Pellter: 2.5 km/1.5 milltir

Dechrau: Parc Gwledig Pyllau Plwm Y Mwynglawdd

Amser: 1 awr

Parc Gwledig Pyllau Plwm Y Mwynglawdd

Feiriandy'r Ddinas

Roedd hi'n anoddach gweithio carreg galch y Mwynglawdd na'r tynodfaen a ganfyddwyd i'r diwyrain. Yn aml defnyddiodd adeiladau lleol y carreg galch lwyd ar gyfer ysguboriau a waliau cyffredin, tra defnyddiwyd y tynodfaen melyn destlus ar gyfer y prif dŷ.

Efallai i'r darn hwn o'r llwybr fod yn rhan o'r hen ffordd drol a ddefnyddiwyd i gludo carreg galch o'r Mwynglawdd i Waith Dŷ Bersham.

Calchfaen a Phlwm

Gellwch weld olion cloddio am fwynau ar ran o'r llwybr. Roedd y calchfaen o dan y ddaear yn ardal y Mwynglawdd yn gyfoethog o fwynau metal, plwm yn arbennig. Mae'r llwybr yn dechrau ym mhyllau plwm y Mwynglawdd, safle'r siafft fwyaf dwfn ac un o'r canolfannau mwyngloddio prysuraf unwaith. Rhwng 1819 a 1919, chwiliodd dros 30 o gwmnïau am blwm gerllaw, gan lunio 50 siafft, a thynnu mwyn plwm a oedd werth dros £4 miliwn!

Perygl mwyaf y pyllau oedd gorlifant, yn arbennig wrth i'r siafftau ddyfnhau. Torrwyd sianeli draenio ac mae'r dyfnaf o'r rhain, a adnabyddir fel y Boncen Ddydd Ddofn yn ymddangos gerllaw Clywedog yn ymyl Melin Nant.


Y Boncen Ddydd Ddofn. Roedd hon yn draenio dŷr o'r pyllau a oedd i fyny'r afon yn y Mwynglawdd. Mae'r dŷr o liw oren ohernwydd y gwaddodion haearn yn y creigiau y mae wedi treiddio drwyddynt.

Telor y cnaw

Felin y Nant

Feiriandy'r Ddinas
Defnyddiwyd Feiriandy'r Ddinas i bwrpio dŷr o'r pyllau i siafft y Boncen Ddydd Ddofn.

Adfeilion melinau ŷd yw'r Melinau Newydd, a adeiladwyd mae'n debyg ar ôl Melin y Nant pan roedd y galw am ŷd yn uchel gan i'r boblogaeth gynyddu'n gyflym yn anterth y gweithgareddau diwylliannol.



Mwyngloddio

Mae'n debyg mai'r Rhufeiniaid oedd y rhai cyntaf i gloddio am blwm – daw'r enw 'Minera' o'r gair Lladin am fwyn. Parhaodd y mwyngloddio drwy gydol yr oesoedd canol, erbyn y 14eg ganrif roedd plwm yn nwydd mor werthfawr fel y derbyniodd y mwyngloddwyr freintiau arbennig megis eu heithrio rhag talu trethi.

Defnyddiodd y mwyngloddio cynnar yr haenau o blwm ger yr arwyneb. Yn sgil y chwyldro diwydiannol bu datblygiadau mewn mwyngloddio, gyda haenau dyfnach yn cael eu defnyddio. Roedd peiriannau pwmpio â stem yn gallu pwmpio dŵr o'r siafftau mwyngloddio dyfnach. Roedd anghydfodau rheolaidd rhwng y gwahanol byllau yn aml yn achosi gorlifiad. Os na fyddai'r pypiau'n cydweithio, byddai gorlifiad mewn un pwll yn gorlifo i byllau cyfagos. Ar ôl i John Taylor gyfuno'r 11 cwmni yn 1845 y llwyddwyd i ddatrys y problemau draenio drwy gydlynu'r pwmpio a chwblhau'r Boncen Ddydd Ddofn yn 1847.



Copi o'r peiriannau yng Nghloddfa Blwm y Mwynglawdd



Gwindlas law

Fflora Carreg Galch

Mae blodau gwyllt yn ffynnu mewn pridd carreg galch tenau. Edrychwch am yr amrywiol degeirian yn y gwanwyn a drwy gydol yr haf, blodau megis y bengaled gyda'i blodau porffor tebyg i'r ysgallen a'r feillionen euraidd ymledol. Mae llai o blanhigion yn tyfu ar y tomenni sydd wedi'u difwyno â phlwm, ond mae ganddynt hwythau eu blodau arbennig eu hunain.



Simon Hughes

O ystyried y peryglon, prif oedd y damweiniau yn y Mwynglawdd. Y rheswm am hyn oedd y gweithwyr coed a oedd yn cadw'r pwll mewn cyflwr da. Cyflogwyd Simon Hughes fel gweithiwr coed ym mhwl Dinas y Mwynglawdd, ac yn brif weithiwr coed yn 1908. Gweithiodd yn y pwll hyd nes iddo gau yn 1915.

Ei swydd oedd atgyweirio a chynnal yr holl goed yn y pwll, gosod cynalbyst a chynnal pridd rhydd, gwneud ac atgyweirio ysgolion, gosod cledrau ar gyfer y tramiau a chynnal y pypiau a'r pibelli aer cysylltiedig a'r offer yn y siafftau.

Yn ychwanegol i wneud yr atgyweiriadau roedd Simon a'i gydweithwyr yn archwilio lefelau y siafftau yn rheolaidd. Mae hanesion amdanynt yn archwilio'r lefelau o dan siafft 'Speedwell' – sy'n mynd i mewn wrth Felin y Nant ac yn ailymddangos ar boncen ddydd ym mhentref y Mwynglawdd! Weithiau roedd yn rhaid iddynt nofio gan y gorlifiwyd rhai rhannau, ond pur anaml y byddent yn dioddef unrhyw ôl effeithiau ac fe'u croesawyd â photel o chwisgi i'w cynhesu!





Melin y Nant i'r Bers

Pellter: 2.5 km/1.5 milltir

Dechrau: *Melin y Nant*

Amser: 1 awr



Melin Nant
Roedd y tyllau ar ochr dde y felin yn cynnal y sianel uwchben a oedd yn dod â dŵr o'r rhod i droi'r olwynion dŵr.

Clawdd Offa, clawdd pridd a ffos sy'n ymestyn o ogledd Cymru i'r de, a adeiladwyd gan y Brenin Offa o Mersia – sef canolbarth Lloegr erbyn hyn – i ddiffinio a diogelu ei ffin â Chymru. Roedd y Clywedog ar un adeg yn ffin i'r wlad ac mae'r clawdd i'w weld yn amlwg ger y llwybr.

Gored Coed Fawr



Pŵs? Adnabyddir y stepiau gerllaw'r gored yn lleol fel 'Stepiau'r Rwsiaid' ac yn ôl y sôn fe'u hadeiladwyd gan garcharorion rhyfel. Fodd bynnag, mae'r lluniau yn dyddio o 1911 felly, pa rhyfel fyddai hyn? Os yn'r stori'n gelwydd pryw adeiladodd y stepiau?



Pont Gothig o'r 19eg ganrif

Melinwyr a Thirfeddianwyr

Roedd melin ger afon y Nant ers cannoedd o flynyddoedd, wedi ei lleoli'n rddelfrydol ger afon fyrlymus. Mae'n debyg bod y felin wreiddiol ar gyfer pannu sef llenwi brethyn gwlan wedi ei wau – ond erbyn diwedd y 18fed ganrif roedd Melin y Nant yn felin ŷd.

Mae'r hen felin yn gartref i sawl ystlum. Mae'r ystlum pedol lleiaf yn defnyddio'r twnnel o dan y ffordd a oedd yn draenio dŵr o'r olwyn bwl i mewn i'r afon ac mae'r ystlum Pipistrelle llai yn clwydo yn y to. Yn y cyfnos ar nosweithiau'r haf gellwch eu gweld yn ymddangos o'u clwydi dydd i chwilio am bryfaid.

Y tu hwnt i'r felin mae'r llwybr yn mynd drwy goed Plas Power, rhan o ystad Plas Power, a enwyd ar ôl ei berchennog cynnar Sir Henry Power. Efallai y byddwch yn sylwi ar y waliau terfyn cerrig castellog a'r bont gothig ger Melin y Nant, a'r capel addurniadol gerllaw i'r Bers a adeiladwyd gan berchennog fictoriaidd, Thomas Lloyd Fitzhugh.

Sylwch mai ychydig sy'n tyfu o dan llystyfiant trwmchus ceigdy y gorllewin ar ochr dde y llwybr.

Mae'r rhod, sydd nawr yn sych, yn rhedeg ger y llwybr. Edrychwch hefyd am giatiaw'r llifddorau a oedd yn darparu'r dŵr o'r gwaith pan nad oedd ei angen, neu er mwyn rhwystro gorllifiad.

Mae'n debyg yr adeiladwyd y Gored Coed Fawr gan y teulu Wilkinson o'r Bers i gyflenni dŵr i bwl glo bychan ar ochr arall y ffordd.

Defnyddiwyd Caeau Weir yn ystod y 19eg ganrif i ddarparu llif gyson o dŵr i waith dur y Bers. Roedd giât y llifddor yn rheoli llif y dŵr i mewn i'r rhod a oedd yn cludo'r dŵr i'r gwaith dur.

Yr Ystlum Lleiaf

Y Bers




Llenwi neu Llifanu?

Er mwyn llenwi brethyn gwlan roeddynt yn ei guro o dan y dŵr â morthwylion pren wedi eu gyrru gan olwyn ddŵr y felin. Efallai y defnyddiwyd y cae gwastad rhwng y felin a'r afon fel 'cae denturio' lle ymestynnwyd y brethyn a'i hongian i sychu. Dyma o le y daw'r ymadrodd Saesneg 'to be on tenterhooks'.

Adeiladwyd y felin yd yn 1832 a pharhaodd i weithio hyd nes dechrau'r 20fed ganrif, ac fe'i hailagorwyd am gyfnod byr yn ystod yr ail ryfel byd. Nid yw'r olwyn ddŵr fawr bellach yn bodoli ond gellwch weld pwll yr olwyn ar ochr dde yr adeilad. Dargyfeiriwyd dŵr o'r afon a'i sianelu i'w gweithio o rod a luniwyd y tu ôl i'r felin.

'Pannu'r brethyn gyda morthwylion pren.'



Coetir


Mae'r coetir yn cynnwys coed brasddeiliog a chonifferaidd gan gynnwys y ffawydden, onnen, derw a chollen. Mae llawer mwy o blanhigion ac anifeiliaid yn byw yn y goedwig brasddeiliog na'r coetir tywyll conifferaidd trwchus. Er bod gwiwerod ac anifeiliaid megis cnocell y coed a llinosiaid yn bwydo ar y conau pîn. Un rheswm am y gwahaniaeth yw'r diffyg golau.

Yn y gwanwyn mae arogl garleg gwyllt ar yr awel yn y coetir brasddeiliog, ac mae'r llawr wedi ei garpedu â dail gwyrdd trwchus.



Bywyd gwyllt glan yr afon

Mae gan yr afon ei phlanhigion a'i hanifeiliaid arbennig ei hun. Edrychwch allan am y mwyeilch brown tywyll a gwyn a'r siglenod llwyd gosgeiddig a ddenir oherwydd y llu pryfaid a'r creaduriaid bychain eraill sy'n byw yn y dŵr. Mae brithyll yn ffynnu yn yr afon o dan y Gored Fawr, ynghyd â llysywod a silod sy'n cuddio yn y bylchau rhwng y cerrig. Mae troi cerrig yn ofalus yn dadorchuddio'r bwyd a geir ar gyfer nifer o ysglyfaethwyr gan gynnwys y larfa prys gwellt a ddiogelir gan eu gorchuddion caregog, berdys bychain a nymffau gwybed gwastad.



Teulu Evans Melin Nant

Roedd teulu Evans, Samuel, Sarah a'u 10 o blant yn gweithio yn Melin Nant ac yn cadw'r fferm gerllaw o 1889 i 1930. Roeddynt yn byw yn y ffermdy, sydd nawr yn adfail, ar ochr arall y rhyd o'r felin. Roedd yr holl deulu ynghlwm wrth gadw'r fferm a'r felin. Roedd y teulu bron iawn yn hunan gynhaliol o ran bwyd, yn tyfu eu llysiau i gyd ac yn cadw moch. (Gellwch weld y cytiau moch ger ardal chwarae'r plant)

Roedd Sarah yn pobi bara unwaith bob pythefnos, gan bobi 16 torth ac un dorth gyrents. Roedd hefyd yn gwneud llawer o fenyn o laeth y fferm mewn ystafell wneud menyn arbennig ar ben y ffermdy. Roedd y corddwr yn cael ei droi gan olwyn ddŵr o ffrwd y felin.

Bob prynhawn byddai Samuel yn llwytho'r caniau llaeth i'w drol a cheffyl ac yn dosbarthu llaeth i'r tai lleol, gan dywallt llaeth o'r caniau i jwg neu gynhwysydd y preswylwyr. (Ni ddefnyddiwyd poteli llaeth bryd hynny!) Roedd hefyd yn gwerthu menyn a'r llysiau a oedd dros ben ar ei rownd.

Roedd y plant hefyd yn gweithio'n galed, yn bwydo'r anifeiliaid yn bachu'r drol at y ceffyl, yn casglu ffrwythau ac yn gofalu am yr ardd llysiau, yn helpu i gynaeafu'r yd ac yn malu yn gynnar yn yr hydref ac yn cludo dŵr o'r brynau yn ystod cyfnodau sych yr haf.





Y Bers i Felin Puleston

Pellter: 1.5 km/1 milltir
Dechrau: Bers
Amser: 45 munud

Papur a Dur

Mae'n anodd dychmygu bod y rhan hon o'r llwybr yn fwrllwm o weithgaredd diwydiannol am dros 200 o flynyddoedd. Roedd gwaith dur y Bers yn chwarae rhan flaenllaw yn ystod y chwyldro diwydiannol, ac yn cynhyrchu y peiriannau canon a stêm byd enwog.

Roedd ei leoliad yn ddelfrydol gan i'r holl ddeunydd crai fodoli gerllaw. Cloddiwyd am fwyn haearn yn Llwyneinion a Phonciau. Daeth y garreg galch a ddefnyddiwyd fel catalydd yn y broses mwyndoddi o'r Mwynglawdd. I ddechrau defnyddiwyd siarcwl o Coedpoeth a oedd gerllaw yn nhân ffrweisi ac yn ddiweddarach glo o Lwyneinion a Phonciau. Roedd yr afon yn darparu digon o ddŵr i yrru'r meginau a oedd yn chwythu aer i mewn i'r ffrwnais.

Pan symudodd y gwaith dur i Brymbo, daeth cynhyrchu papur i fod yn ddiwydiant pwysig yn ei le. Roedd tair melin bapur yn gweithio â dŵr yn cynhyrchu papur a wnaed â llaw hyd nes i bapur a wnaed gan beiriant ddinistrio'r farchnad yn yr 20fed ganrif.

Canolfan Dreftadaeth y Bers

Yn wreiddiol roedd y Canolfan Dreftadaeth yn ysgol, a adeiladwyd ar safle'r gwaith dur dmyreiniol.

Safle Melin Bapur Twrci a gynhyrchodd papur o'r ansawdd gorau ac a ddefnyddiwyd ar gyfer arian papur, sieciau, llyfrau cyfrifon a phapur ysgrifennu cain.


Edrychwch allan am y crehyrod yn bwydo yn yr afon.

Adeiladwyd Melin y Bers, fel ffontndri gwaith dur, ond fei trawsnewidwyd yn felin ŷd pan gaeodd y gwaith dur.

Efallai y castiwyd y canon yn yr adeilad octagon.

Roedd y gored hon yn darparu llif gyson o ddŵr ar gyfer Melin Bapur Twrci.

Gwellwch weld lle atgyfnerthwyd pont garreg y rheilffordd â trics. Derbyniodd y datblygiad diwydiannol hwb manwr pan ddaeth y rheilffordd i Wrecsam ganol y 19eg ganrif.






Cronfa ddŵr Melin Bapur Twrci

Melinau Papur

Roedd angen cyflenwad da o glytiau fel deunydd crai i wneud papur, a dŵr eithaf caled â llif gyson i yrru'r melinau. Adeiladwyd amryw o goredau a rhodau i sicrhau cyflenwad cyson o ddŵr. Roedd digonedd o glytiau – dengys cyfrifiad 1851 Wrecsam bod niferoedd mawr o fewnfudwyr Gwyddelig yn casglu clytiau ar gyfer y melinau papur. Roedd y clytiau yn cael eu mwydo mewn dŵr ac yna eu gwasgu gan forthwyl yn gweithio gyda dŵr i wahanu'r ffibrau. Yna ffurfiwyd y gymysgedd o ddŵr a ffibrau yn ddalenni.

Roedd nifer o blant ifanc yn gweithio yn y melinau papur hyd nes y diddymwyd llafur plant yn y 1800au hwyr. Roedd genethod yn torri clytiau ac yn sgleinio papur tra cyflogwyd y bechgyn fel 'peirianyddion' ar y peiriant curo.



Chwimsi ceffylau yng Nghanolfan Dreftadaeth y Bers

Mae'r chwimsi ceffyl a adluniwyd o flaen yr amgueddfa yn gopi o'r un ym mhwill Llwyneinion. Fe'i defnyddiwyd ar gyfer mynd â dynion a mwynau i fyny ac i lawr y siafftau.

Y Wilkinson

Cymerodd y brodyr Wilkinson, John a William, les gwaith dur y Bers drosodd yn 1762 gan eu tad Isaac a oedd wedi methu â gweithio Bersham yn broffidiol. John, y brawd hŷn a oedd yn beiriannydd arloesol ac yn ŵr busnes yn edrych i'r dyfodol a arweiniodd y bartneriaeth. Roedd yn benderfynol o beidio ag ailadrodd methiant ei dad. Roedd eisiau rheoli popeth a oedd yn effeithio ar gynhyrchu'r dur, felly prynodd y pyllau glo, agorodd chwareli carreg calch a datblygodd ffyrdd o gludo'r dur. Dargyfeiriodd John Wilkinson yr afon Clywedog hyd yn oed i sicrhau fod gan ei waith dur ddigon o bŵer.

Roedd galw mawr am arfau yn y 18fed ganrif hwyr oherwydd rhyfeloedd yn erbyn Ffrainc, yr Iseldiroedd a Sbaen. Roedd Wilkinson yn ffynnu gan iddo lunio dull newydd mwy effeithiol o dyllu canon. Roedd yn hyblyg ac wedi addasu ei beiriant tyllu canon ar gyfer peiriannau stêm a oedd newydd eu dyfeisio gan James Watt. Erbyn 1790 roedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r darnau ar gyfer peiriannau stêm Boulton a Watt.

Yn ystod y cyfnod ehangu prysur hwn, yn aml roedd William dramor, yn cynghori'r Ffrancwyr ar sefydlu ffoundriau a oedd yn dilyn esiampl y Bers. Dychwelodd yn 1787 ond roedd y brodyr yn cweryla mewn prin amser. Roedd John wedi prynu Brymbo ac wedi adeiladu ffoundri newydd, heb ymgynghori â William, ond roedd les Bersham ar y cyd. Ffrwydrodd yr anghydfod yn 1795, a'i ganlyniad oedd dinistrio gwaith y Bers a diddymu'r bartneriaeth. Awgryma'r hanes i John fynd â grŵp o ddynion i wagu'r ffoundri, ond cyrhaeddodd William gyda giang arall i rwystro ei frawd a dinistriwyd y gwaith dur o ganlyniad i'r ymladd a ddigwyddodd!

Er mwyn dial, dywedodd William wrth Boulton a Watt bod John wedi adeiladu sawl peiriant stêm heb eu caniatâd, er mwyn osgoi talu breindal, ac erlynwyd John am hyn. Ni chymododd y brodyr a bu farw'r ddau yn 1808, heb dorri gair â'i gilydd o hyd.



John Wilkinson

Atgynhyrchwyd â chaniatâd caredig Canolfan Dreftadaeth y Bers




Melin Puleston i Felin y Brenin

Pellter: 2.5 km/1.5 milltir

Dechrau: Melin Puleston

Amser: 1 awr

Felin Puleston



Mae Melin Puleston nawr yn ganolfan addysgiadol ond roedd yr adeiladau yn un o'r ffermydd tenant ar yr ystad.

Mae'r gored ger y bont a'r maen melin yn yr Ardd Synhvyraidd yn olion o Felin Puleston.

Coed-y-glyn
Fâ sawl gwahanol math o goed fedrwech chi eu canfod yn y coetir?

Rhod Melin y Brenin
Y ffos sydd ar hyd ymyl y coetir yw'r rhod a oedd yn cludo dŵr o'r Clywedog i Felin y Brenin.

Melin y Brenin

Mae'r gromen fric yn odyn cŵch gwenyn a symudwyd o'r gweithfeydd bric gerllaw.

Mae'r bont yn Melin Puleston yn lle da i edrych am frithyll sy'n gallu ffynnu mewn afon lân gyda llif gyflym.

Ffurfiwyd y llyn naturiol hwn gan ymsuddiad ac mae nawr yn denu elyrch ac adar gwylt i fridio.

Erddig

Edrychwch am farchravn mawr, sydd yn aml dros 1m mewn uchder. Mae'r marchravn yn blanhigyn cyntefig a oedd yn gyffredin filiynau o fynyddoedd yn ôl. Roedd yn bodoli adeg y deinasoriaid hyd yn oed!

siglen lwyd



Grawn a Mawredd

Mae'r afon lydan a throellog yn ymlwybro drwy ffermdir ffrwythlon yn ei rhan olaf. Bu'n gynhyrchiol erioed, gyda'r gorlifant cyson yn cyfoethogi'r porfa wastad ger yr afon, a chynhyrchu profa las doreithiog i besgi gwartheg. Roedd digonedd o yd hefyd yn cael ei dyfu a'i falu yn y melinau amrywiol ar hyd yr afon.

Mae'r rhan fwyaf o'r tir yn rhan o ystad Erddig, a oedd ar un adeg y pwysicaf yng ngogledd ddwyrain Cymru. Fe'i hadeiladwyd ar gyfer Joshua Eddisbury yn 1683 pan ddaeth yn Uwch Siryf Sir Ddinbych ond mae pob perchennog a'i ddilynodd wedi gadael eu hól ar y tŷ a'r ystad. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar yr ystad yn awr, ac fe'i rheolir fel parc gwledig.

Daw'r llwybr drwy goetir aeddfed Coed-y-glyn, ar hyd parcdir Erddig, yna mae'n dilyn yr afon hyd at Felin y Brenin sydd wedi cadw monopoli malu blawd yn Wrecsam am dros 600 mlynedd.

Ble i falu eich ŷd?

Mae Melin y Brenin yn dyddio o'r 14eg ganrif a hon oedd y felin bwysicaf bob amser. Roedd gan y perchnogion 'orchymyn malu' a oedd yn gorfodi holl drigolion Wrecsam ac Ansty i falu eu hŷd a bragu yno. Er hyn, roedd llawer o gystadleuaeth anghyfreithlon yn arbennig o Felin Puleston, a oedd ychydig i fyny'r afon.


Adeiladwyd Melin Puleston yn y 16eg ganrif gan dad tenant Melin y Brenin. Roedd Melin y Brenin mewn cyflwr gwael bryd hynny ac nid oedd yn gallu ymdopi â'r galw cynyddol am falu. Os na allai Melin y Brenin gyflawni ei waith nid oedd y 'gorchymyn malu' yn gymwys felly roedd melin Puleston a oedd gerllaw mewn safle da ar gyfer y gwaith melin a oedd dros ben.

Yn 1624 cynyddwyd gallu cynhyrchu Melin y Brenin ac nid oedd gan y bobl gyfiawnhad cyfreithiol i fynd i unman arall. Fodd bynnag, parhaodd melin Puleston i falu'n anghyfreithlon. Rhannodd y ddwy felin yr un rhod, a chan y byddai melin Puleston yn derbyn y dŵr yn gyntaf, gallai rwystro llif y dŵr i Felin y Brenin. Drwy gadw eu llifddorau ar agor, hyd yn oed pan nad oeddynt yn malu, roeddynt yn gallu diferu'r dŵr o'r rhod. Parhaodd hyn hyd nes yr adeiladwyd cored a rhod ar wahân yn 1668. Daeth y gystadleuaeth i ben pan ailadeiladodd Philip Yorke Felin y Brenin yn 1769 a phrynu melin Puleston a'i thrawsnewid ar gyfer defnydd fferm.

Torrwyd y monopoli yn gyfan gwbl yn 1854 pan sefydlodd 29 o dafarnwyr, bragwyr, melinwyr, ac arwerthwyr gymdeithas i rwystro beth yr oeddynt yn honni oedd yn dollau anghyfreithlon. Unwaith yr adeiladwyd melinau yn gweithio gyda stêm yn Wrecsam ni allai Melin y Brenin gystadlu. Caeodd yn gyfan gwbl yn 1940.

Mwyngloddio ac Erddig

Roedd cyfoeth y diwydiant glo wedi cynnal yr ystad ers y 18fed ganrif, ond yn eironig, bu i lo ei dinistrio bron iawn yn y 20fed ganrif. Gosododd y Bwrdd Glo Cenedlaethol siafftau o waith glo y Bers yn uniongyrchol o dan y tŷ yn y 1940au hwyr, gan achosi ymsuddiant a niwed i'r tŷ. Yn ffodus, cafodd ei achub gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a ddechreuodd ei adfer yn 1973 yn rhannol â iawndal oddi wrth y Bwrdd Glo.



Coed-y-glyn – noddfa bywyd gwylt

Mae amryw o goed hynafol yn tyfu yma, sef derw a ffawyddden yn bennaf ond mae rhywogaethau mwy anghyffredin hefyd gan gynnwys oestrwydd a'r fasarnen fach. Gellwch ddyddio'r goeden yn fras drwy edrych ar ei chwmpas gan y bydd yn tyfu 1.25cm fesul blwyddyn. Mae'r amrywiaeth o goed, prysglwyni, rhedyn a blodau sy'n tyfu ar y ddaear islaw yn darparu cartrefi i sawl aderyn ac anifail. Mae'r cyflenwad o gnau, hadau ac aeron yn denu llawer o bryfaid, llygod, llygod dŵr ac adar – digonedd o fwyd ar gyfer y llwynogod, moch daear, tylluanod a chudyll coch sydd hefyd yn byw yma.

Mae'r coetir rhwng maes parcio Ffordd Sonlli a Melin y Brenin yn fwy corslyd ac mae llawr y coetir wedi ei garpedu â rhedyn, brwyn a marchrawn anferth sy'n ffynnu yn yr amgylchiadau llaith.



Philip Yorke 1 (1743-1804)

Philip Yorke oedd y perchennog cyntaf a gafodd ei eni ar yr ystad, a gwnaeth mwy i ffurfio cymeriad arbennig Erddig nag yr un arall. Etifeddodd yr ystad yn 23 oed, pan oedd newydd ei alw at y fainc yn Llundain. Roedd ganddo 13 o blant – bu i'w wraig gyntaf farw yn 30 ar enedigaeth plentyn ar ôl geni 7 o blant mewn 8 mlynedd, ond yn ddiweddarach ailbriododd a chael 6 ychwaneg o blant!

Er ei fod yn AS dros Gernyw, ni siaradodd erioed yn y Tŷ Cyffredin, nid oedd yn hoff o fynd i Lundain ac nid oedd ganddo ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth genedlaethol! Yn hytrach canolbwyntiodd ar faterion lleol ac roedd yn frwdfrydig dros ben yn natblygiad a rheolaeth ei ystad. Ei amcan oedd gwella gwerth amaethyddol yr ystad tra'n tirlunio'r parcdir. Dargyfeiriodd gwrs Yr Afon Clywedog i ddarparu ffynhonnell ddŵr mwy dibynadwy ar gyfer Melin y Brenin a'i diogelu rhag gorlifant.



Gwybodaeth Hwylus

Cewch ddigon o gyfle i gael seibiant ar hyd y Llwybr.

Gall Canolfan Ymwelwyr Melin y Nant, sydd yng nghesail y coed wrth yr afon, gynnig lluniaeth ac arddangosfeydd, gan gynnwys twnnel y twrch mawr.

Oriau agor 10.30am - 4.30pm bob dydd, ond ar y penwythnos yn unig yn y gaeaf. Ffôn: 01978 752772. (Lluniaeth, toiledau, man picnicio, man chwarae, siop.)

Dewch i ymweld â *Chanolfan Treftadaeth y Bers a'r Gwaith Haearner* mwyn darganfod 300 mlynedd o hanes cynhyrchu dur yn y Bers ac ym Mrymbo cyfagos.

Ffoniwch 01978 261529 i gael gwybodaeth am yr oriau agor. (Lluniaeth, toiledau, man picnic, man chwarae, siop.)

Dysgwch ragor am fywyd y mwynwyr yng Nghanolfan Ymwelwyr Pyllau Mwyn y Mwynglawdd.

Ffoniwch 01978 261529 i gael gwybodaeth am yr oriau agor.

Parc Gwledig Pyllau Plwm y Mwynglawdd.
Rhif ffôn: 01978 762122.

Parc Gwledig Erddig. Rhif ffôn:
01978 355314.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Wrecsam, Cyngor Bwrdeistrefol Sir Wrecsam, sy'n rheoli Llwybr Dyffryn Clywedog. Gofala'r Gwasanaeth Cefn Gwlad am chwech o barciau yn y Bwrdeistref Sirol, ac mae gan bob un ei nodweddion arbennig ei hunan. Maent yn cynnal rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau gydol y flwyddyn. Rhif ffôn. 01978 762122.



Cludiant Cyhoeddus

Os ydych yn dymuno cerdded ar hyd y Llwybr i gyd, mae gwasanaeth fysiau rheolaidd rhwng Wrecsam a'r Mwynglawdd (Rhif 11) o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn ac 11a ddydd Sul.

I gael gwybodaeth am yr amserlen ffoniwch:
Traveline Cymru 0870 608 2 608
Linell fysiau Wrecsam 01978 266166
Canolfan Groeso 01978 292015
www.wrexham.gov.uk
www.arriva.co.uk

Mae fersiwn mewn print bras a fersiwn Saesneg ar gael drwy ffonio 01978 762122.



Adfywio

Gobeithio i chi fwynhau eich taith gerdded ac i chi ystyried y daflen hon yn ddefnyddiol. Byddem yn croesawu eich atborth, os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y llwybr neu'r daflen, yna ysgrifennwch y rhain isod a'u dychwelyd i'r Ganolfan Ymwelwyr, Melin y Nant, Ffordd Rhosberse, Coedpoeth, Wrecsam LL11 3BT. Fel arall gellwch anfon ebost atom ar: countryparks@wrexham.gov.uk.
